

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Allskin Laser Clinic, y Fenni

Dyddiad arolygu: 20 Ionawr 2026

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ebrill 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83745-500-3

© Hawlfraint y Goron 2026

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	16
4.	Camau nesaf	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol	19
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Allskin Laser Clinic ar 20 Ionawr 2026.

Arweiniwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwahoddwyd y cleifion i lenwi holiadur i ddweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 17 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Allskin Laser Clinic yn darparu amgylchedd dymunol i gleifion, ac roedd y safle yn amlwg yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da.

Roedd gwybodaeth briodol yn cael ei darparu cyn, yn ystod ac ar ôl triniaethau ac roedd y cleifion yn cael eu gwahodd i roi adborth.

Mynegodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC farn gadarnhaol iawn am y cyfleusterau, y gweithredwr laser, a'r triniaethau a ddarparwyd. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd glân a dymunol
- Ystod dda o wybodaeth i'r cleifion
- Ymdrech ragweithiol i geisio adborth a'i adolygu

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Allskin Laser Clinic yn darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol i safon dda. Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Roedd yr uned laser mewn cyflwr da, a gwelsom fesurau diogelwch a chofnodion gwasanaethu priodol. Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau cymwys ac roedd gan y clinig reolau lleol a phrotocolau trin cynhwysfawr. Roedd y gweithredwr wedi cael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddefnyddio'r laser yn ddiogel.

Roedd cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr ac wedi'u storio'n ddiogel.

Argymhellwn y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y profion trydanol (PAT) yn cael eu cynnal yn flynyddol
- Ychwanegu rhagor o fanylion at y gofrestr triniaethau.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Nodiadau cleifion cynhwysfawr
- Gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddarparu gofal diogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Perchennog y clinig oedd y rheolwr cofrestredig ac unig weithredwr y peiriant laser. Roedd yn amlygu ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom agwedd gadarnhaol tuag at adborth a gwneud gwelliannau.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i hybu'r broses o ddarparu gwasanaethau'n ddiogel.

Argymhellwn y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gofynion hyfforddi yn cael eu monitro a'u bodloni.

Roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Prosesau clir ar gyfer delio â chŵynion a digwyddiadau o bwys.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn, a mynegodd y cleifion farn gadarnhaol iawn am y cyfleusterau, y gweithredwr laser, a'r triniaethau a ddarparwyd. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Caiff y triniaethau eu darparu mewn lleoliad diogel, preifat, hynod o lân ond cyfforddus, sy'n sicrhau profiad rhagorol i'r cleient. Mae'r clinigydd yn darparu gwybodaeth drylwyr iawn cyn ac yn ystod y driniaeth a chynigir cymorth bob amser os oes angen ar ôl y driniaeth. Rwy'n teimlo fy mod mewn dwylo diogel iawn."

"Mae Allskin Laser Clinic bob amser yn edrych yn lân ac yn ffres iawn, rwy'n teimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus yn yr amgylchedd. "Rwyf bob amser yn cael fy atgoffa am drefniadau ôl-ofal pan fyddaf yn cael triniaeth ac mae fy ngofal yn cael ei gymryd o ddifrif, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr, rwyf bob amser yn teimlo fy mod yn cael parch mawr yn y clinig."

"Mae [y perchennog] yn gweithio mewn modd proffesiynol a diogel, gan sicrhau awyrgylch croesawgar a llonydd. Mae'n wybodus ac rwy'n teimlo'n ddiogel yn cael fy nhrin yn ei salon. Does unman arall y byddwn yn mynd."

"Profiad anhygoel mewn salon glân a chyfforddus, mae [y perchennog] yn broffesiynol iawn a gwnaeth egluro'r holl brosesau a thriniaethau'n drylwyr."

Urddas a pharch

Roedd gan yr ystafell drin ddrws y gellid ei gloi ac roedd bleind yn gorchuddio'r ffenestr allanol, er mwyn hyrwyddo preifatrwydd y claf. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod drws yr ystafell drin yn cael ei gadw ar glo ac eithrio pan oedd angen mynediad, a bod y mecanwaith yn cael ei ddangos i'r cleifion er mwyn sicrhau y gallent ymadael yn ddiogel pe bai argyfwng.

Os byddai angen, gallai'r cleifion newid yn y toiled â chlo wrth ymyl yr ystafell drin.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau. Nododd un ymatebydd:

“Mae [y perchennog] wedi bod yn hollol wych, mae ei gwasanaeth mor gyfeillgar a phroffesiynol. Mae [y perchennog] yn ymdrin â phob sesiwn ag urddas a sensitifrwydd, am nad oeddwn yn teimlo'n hyderus iawn yn siarad am fy mlew a'i waredu - mae [y perchennog] yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ac yn dawel fy meddwl ac rwy'n teimlo'n hyderus iawn am ei thriniaeth, ei gwaith paratoi a'i phroses ôl-ofal.”

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl yn ystod ymgynghoriadau er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Darparwyd enghreifftiau o achosion lle gwrthodwyd triniaethau gan nad oedd modd sicrhau cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Roedd polisi ar waith ynghylch cydsynio i driniaeth, ac roedd ffurflen fanwl yn cael ei defnyddio yn ystod ymgynghoriadau a oedd yn gofyn am lofnod y claf er mwyn cadarnhau ei fod yn cydsynio i'r driniaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i allu deall yr holl opsiynau triniaeth a'u risgiau a'u manteision, a bod cost y driniaeth wedi'i chyfleu'n glir iddynt cyn iddynt ei chael. Nododd un ymatebydd:

“Mae [y perchennog] mor broffesiynol, cafodd popeth ei egluro'n glir i mi ac roeddwn yn gwbl gyfforddus.”

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y clinig ddatganiad o ddiben a chanllaw gwybodaeth i gleifion cyfredol. Roedd y ddwy ddogfen ar gael yn hawdd mewn ffolder cleifion yn yr ystafell drin a dywedwyd wrthym eu bod wedi'u cynnwys ar wefan y clinig ac ar bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd rhestr gynhwysfawr o brisiau triniaethau ar gael ar wefan y clinig.

Roedd y cleifion yn cael eu gwahodd i gysylltu â'r clinig wyneb yn wyneb, dros y ffôn, neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan.

Roedd y clinig yn defnyddio porth ar-lein diogel lle gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau a gwneud taliadau. Darperir dolenni i'r system ar y wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig enghreifftiau o achosion

lle roedd cleifion â mynediad digidol cyfyngedig yn gallu cysylltu â'r clinig dros y ffôn i drefnu apwyntiadau a chael gwybodaeth berthnasol.

Roedd pob ymatebydd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn egluro'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod y triniaethau, yn gwrando ar y cleifion, ac yn ateb cwestiynau.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn cael triniaeth, ac roedd y canlyniadau'n cael eu cofnodi fel rhan o gofnod triniaeth y claf.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau priodol ar gyfer cael hanesion meddygol, yn ogystal â gweithdrefnau ar gyfer asesu, diagnosio a thrin cleientiaid. Roedd hyn yn cynnwys gofyn i'r cleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn dechrau triniaeth. Roedd gwiriadau pellach yn cael eu cynnal yn ystod pob ymweliad dilynol i nodi unrhyw newidiadau ers yr ymgynghoriad cychwynol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio a bod prawf croen wedi cael ei gynnal cyn iddynt ddechrau eu triniaeth. Nododd un ymatebydd:

“Bob amser yn trafod popeth yn fanwl cyn rhoi triniaeth. Gwiriadau trylwyr wedi'u gwneud ynghylch newidiadau mewn amgylchiadau a meddyginiaeth ac ati.

Yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus. Yn aildrefnu apwyntiadau os oes angen oherwydd newidiadau mewn meddyginiaeth ac ati.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd gan y clinig bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith, a oedd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol.

Roedd cyfyngiadau ffisegol y clinig yn golygu nad oedd modd i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn na chleifion â symudedd cyfyngedig iawn gael mynediad iddo. Roedd hyn yn cael ei egluro ar wefan y clinig a dywedwyd wrthym y byddai cleifion yn cael eu cyfeirio at feddygfeydd mwy hygyrch fel y bo'n briodol.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd y clinig yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio adborth gan gleifion. Roedd y porth ar-lein a oedd yn cael ei ddefnyddio i drefnu apwyntiadau yn gwahodd y

cleifion yn awtomatig i adael adborth yn dilyn eu triniaeth, gan ddefnyddio system sgorio ynghyd ag opsiwn ar gyfer testun rhydd. Roedd y rheolwr cofrestredig yn cael gwybod pan fyddai adolygiad wedi'i gyflwyno. Roedd y cleifion hefyd yn darparu adolygiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bod y clinig yn cysylltu â chleifion os oedd ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y safle yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y clinig mewn cyflwr da iawn ac yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd toiled cleifion ar gael i ddynion a menywod, ynghyd â chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol. Nodwyd gennym fod nwyddau mislif yn cael eu darparu am ddim ond nad oedd bin dynodedig ar gyfer nwyddau mislif.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r trefniadau gwaredu gwastraff er mwyn sicrhau bod nwyddau mislif yn cael eu gwaredu'n addas.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y clinig bolisiau a gweithdrefnau ar waith i helpu i gynnal iechyd a diogelwch staff a chleifion y clinig. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith ynghyd ag asesiad risg cysylltiedig.

Gwelsom dystiolaeth o adroddiad gosodiadau trydanol cyfredol a bod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi'u cynnal yn 2024. Gwnaethom gynghori bod yn rhaid cynnal profion PAT yn rheolaidd, ac ystyrir bod gwiriadau blynyddol yn arfer da. Aethpwyd i'r afael â hyn yn syth ar ôl yr arolygiad drwy gynnal profion PAT.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod profion PAT yn cael eu cynnal yn flynyddol.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith ar y cyfan o ran diogelwch rhag tân, a bod diffoddwr tân priodol wrth law. Roedd y diffoddwr tân yn un tafladwy, i'w newid bob pum mlynedd.

Roedd yr allanfa dân wedi'i nodi'n glir ag arwyddion priodol. Roedd tystiolaeth bod y systemau canfod tân yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd asesiad risg tân ar waith a disgrifiodd rheolwr y practis y modd yr oedd camau gweithredu a nodir yn cael eu rheoli a'u cofnodi.

Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân. Un ystafell oedd yn y clinig, a'r rheolwr cofrestredig oedd yr unig weithredwr. Roedd yn gallu dangos ar lafar ddealltwriaeth dda o risg tân ac roedd trefniadau diogelwch tân cadarn ar waith, gan gynnwys asesiad risg tân cynhwysfawr. Felly, cawsom sicrwydd nad oedd hyn yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch y cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylid ymgymryd â

hyfforddiant perthnasol cyn gynted â phosibl. Aethpwyd i'r afael â hyn yn syth ar ôl yr arolygiad a chyflwynwyd tystysgrif fel tystiolaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd smygu na fepio yn cael eu caniatáu ar y safle a bod hyn yn cael ei egluro ar lafar i'r cleifion. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod arwyddion 'dim smygu' priodol yn cael eu harddangos.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac roedd y cynnwys yn gyflawn ac yn gyfredol. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob rhan o'r clinig yn lân yr olwg heb unrhyw annibendod. Roedd y safle mewn cyflwr da iawn gan alluogi trefniadau glanhau effeithiol.

Gwelsom drefniadau hylendid dwylo priodol, gan gynnwys cyfleusterau golchi dwylo a gel diheintio yn yr ystafell drin.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith a disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau glanhau priodol, gan gynnwys diheintio'r cyfarpar yn fanwl rhwng cleifion. Roedd trefn lanhau fanwl yn cael ei dilyn ar ddiwedd y dydd ac roedd y safle'n amlwg yn lân.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ond roedd y dyddiad adnewyddu wedi mynd heibio. Aethpwyd i'r afael â hyn yn syth ar ôl yr arolygiad a chyflwynwyd tystysgrif fel tystiolaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol.

Roedd gan yr ystafell drin fin ar gyfer gwastraff clinigol ac roedd contract ar waith ar gyfer ei waredu'n briodol.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn.

Diogelu oedolion agored i niwed

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a hŷn. Dywedodd y staff wrthym nad oedd plant yn cael bod ar y safle.

Roedd polisi diogelu cyfredol a chynhwysfawr ar waith. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfeiriad at weithdrefnau Diogelu Cymru. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig lawrlwytho'r ap ffôn symudol ar unwaith yn ystod yr arolygiad fel adnodd ychwanegol.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at lefel 3, a ystyrid yn arfer da, ac roedd yn gallu disgrifio camau addas i'w cymryd pe bai pryder ynghylch diogelu.

Dyfeisiau meddygol, cyfarpar a systemau diagnostig

Roedd yr uned laser mewn cyflwr da, yn lân yr olwg ac yn cyd-fynd ag amodau cofrestriad AGIC.

Roedd arwyddion priodol ar ddrws yr ystafell drin i rybuddio bod uned laser yn cael ei defnyddio. Roedd gan yr uned laser switsh allwedd ac roedd yr allwedd yn cael ei chadw'n ddiogel pan nad oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio. Yn ogystal, roedd drws yr ystafell drin yn cael ei gadw dan glo pan nad oedd yn cael ei defnyddio.

Roedd yr uned laser yn cael ei gwasanaethu a'i chynnal a'i chadw'n rheolaidd ac roedd cofnodion priodol yn cael eu cadw.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau â chymwysterau addas. Roedd rheolau lleol a phrotocolau trin priodol ar waith. Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr yn unol â'r rheolau lleol, a disgrifiodd y gweithredwr wiriadau rheolaidd i sicrhau ei addasrwydd i'w ddefnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddefnyddio'r uned laser benodol, yn ogystal â hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyffredinol, yn unol â chanllawiau Cymdeithas Laser Meddygol Prydain.

Roedd protocolau trin priodol ar waith, a oedd yn cynnwys technegau trin, paramedrau, amrywiadau a ganiateir, a'r camau i'w cymryd pe bai digwyddiad niweidiol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei annog a'i adolygu'n rheolaidd, er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r clinig yn flynyddol. Roedd hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth, polisiau a gweithdrefnau, cofnodion cleifion, diogelwch laserau, atal a rheoli heintiau, diogelu, yr amgylchedd a chyfleusterau. Roedd yr archwiliad yn cael ei ddefnyddio i nodi meysydd i'w gwella ac unrhyw gamau gweithredu perthnasol.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom dystiolaeth o arferion cadw cofnodion da, ynghyd â gwybodaeth gynhwysfawr wedi'i chofnodi ar ffurf copiâu papur. Roedd hyn yn cynnwys manylion adnabod, hanes meddygol, cydsyniad, ffurflenni ymgynghori a hanes triniaeth y cleifion.

Gwelsom fod cofrestr triniaethau ysgrifenedig yn cael ei chadw ar gyfer yr unedau laser. Roedd hyn yn cynnwys manylion adnabod y claf, dyddiad y driniaeth, y math o driniaeth, paramedrau'r driniaeth, a manylion adnabod y gweithredwr. Gwnaethom gynghori y dylid darparu manylion ychwanegol er mwyn cofnodi nifer y pigladau, lle bo hynny'n berthnasol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau, lle y bo'n berthnasol, fod nifer y pigladau'n cael ei nodi yng nghofrestr triniaethau'r cleifion.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig systemau diogel a phriodol ar gyfer storio a chadw cofnodion y cleifion. Gwelwyd bod ffeiliau'r cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig oedd perchennog y clinig a'r unig weithredwr.

Roedd ystod dda o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, i fodloni gofynion rheoliadol. Gwnaethom argymhell y dylid rhoi systemau mwy cadarn ar waith i sicrhau bod gofynion hyfforddi a chydymffurfiaeth perthnasol yn cael eu monitro'n fwy effeithiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi systemau ar waith i sicrhau bod gofynion hyfforddi a chydymffurfiaeth yn cael eu monitro a'u diweddarau'n effeithiol.

Gwelsom dystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn glir. Roedd gan y clinig yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant cyflogwyr cyfredol ac roedd y dystysgrif wedi'i harddangos yn yr ystafell drin.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith ac ar gael i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a manylion cyswllt i uwchgyfeirio pryderon gyda chyrrff allanol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gan mai'r rheolwr cofrestredig oedd yr unig weithredwr, nid oedd unrhyw bolisiau na gweithdrefnau recriwtio. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ac wedi cael tystysgrif i ddangos gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4. Camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd profion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi'u cynnal yn 2024. Gwnaethom gynghori bod yn rhaid cynnal profion PAT yn rheolaidd, ac ystyrir bod gwiriadau blynyddol yn arfer da.	Mae profi cyfarpar ar gyfer diogelwch trydanol yn lleihau'r risg i gleifion.	Codwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig.	Aethpwyd i'r afael â hyn yn syth ar ôl yr arolygiad drwy gynnal profion PAT.
Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.	Mae hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân yn rhan hanfodol o fesurau diogelwch tân er mwyn amddiffyn cleifion.	Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig y dylid ymgymryd â hyfforddiant perthnasol cyn gynted â phosibl.	Aethpwyd i'r afael â hyn yn syth ar ôl yr arolygiad a chyflwynwyd tystysgrif fel tystiolaeth.
Roedd y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ond roedd y dyddiad adnewyddu wedi mynd heibio.	Mae hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau'n lleihau'r risg i gleifion.	Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig y dylid ymgymryd â hyfforddiant perthnasol cyn gynted â phosibl.	Aethpwyd i'r afael â hyn yn syth ar ôl yr arolygiad a chyflwynwyd tystysgrif fel tystiolaeth.

Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Allskin Laser Clinic

Dyddiad arolygu: 20 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/problem	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Allskin Laser Clinic

Dyddiad arolygu: 20 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/problem	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd nwyddau mislif yn cael eu darparu yn y toiled i gleifion ond nid oedd bin dynodedig ar gyfer nwyddau mislif ar gael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r trefniadau gwaredu gwastraff er mwyn sicrhau bod nwyddau mislif yn cael eu gwaredu'n addas.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9	Sefydlwyd bin/contract gwaredu gwastraff nwyddau mislif gyda 365 waste.	Rebecca Boucher	Gweithredwyd ar unwaith.
2. Gwnaethom gynghori bod yn rhaid cynnal profion dyfeisiau cludadwy (PAT) yn rheolaidd, ac ystyrir bod gwiriadau blynyddol yn arfer da.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod profion PAT yn cael eu cynnal yn flynyddol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26	Cwblhawyd prawf PAT newydd ar 26/01/26 yn dilyn yr arolygiad.	Rebecca Boucher	Cwblhawyd ar unwaith yn y diwrnodau ar ôl yr arolygiad.
3. Nid oedd systemau ar waith i nodi bod	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol	Polisi Diogelwch Tân ar waith. Cwblhawyd	Rebecca Boucher	Cwblhawyd yr hyfforddiant

	hyfforddiant rheolaidd ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân yn ofynnol.	hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.	(Cymru) 2011, Rheoliad 26	Hyfforddiant ar Ddiogelwch Tân ar 10/02/26 a bydd yn cael ei adnewyddu'n flynyddol.		yn syth ar ôl yr arolygiad.
4.	Gwelsom nad oedd arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod arwyddion 'dim smygu' priodol yn cael eu harddangos.	Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020, Rheoliad 13	Arwydd dim smygu wedi'i arddangos ar y drws mynediad wrth ymyl yr arwydd rhybudd laser.	Rebecca Boucher	Cafodd ei arddangos yn syth ar ôl yr arolygiad.
5.	Roedd y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ond roedd y dyddiad adnewyddu wedi mynd heibio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 15	Adnewyddwyd hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ar 11/02/26 a bydd yn cael ei adnewyddu'n flynyddol.	Rebecca Boucher	Wedi'i adnewyddu ar ôl yr arolygiad a bydd yn cael ei adnewyddu'n flynyddol.
6.	Roedd cofrestr triniaethau'n cael ei chadw a oedd yn cynnwys bron yr holl wybodaeth ofynnol. Gwnaethom gynghori y dylid darparu manylion ychwanegol er mwyn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau, lle y bo'n berthnasol, fod nifer y piggiadau'n cael ei nodi yng nghofrestr triniaethau'r cleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 45	Cofnod o nifer y piggiadau wedi'i nodi yn yr adran nodiadau ar gofnodion triniaeth unigol. Mae'r taflenni cofrestru triniaethau dyddiol wedi'u golygu er mwyn cynnwys	Rebecca Boucher	Wedi'i weithredu'n syth ar ôl yr arolygiad.

	cofnodi nifer y pigiadau, lle bo hynny'n berthnasol.			cofnod o nifer y pigiadau.		
7.	Roedd angen cael systemau mwy cadarn i sicrhau bod gofynion hyfforddi a chydymffurfiaeth perthnasol yn cael eu bodloni.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi systemau ar waith i sicrhau bod gofynion hyfforddi a chydymffurfiaeth yn cael eu monitro a'u diweddarau'n effeithiol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20	Crëwyd log olrhain ar gyfer dyddiadau adnewyddu/dod i ben pob cymhwyster, polisi a dogfen, a chaiff ei storio ar flaen ffolder dogfennau'r clinig. Bydd y log hwn yn cael ei wirio bob mis.	Rebecca Boucher	Wedi'i greu ar ôl yr arolygiad.

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rebecca Boucher
Teitl swydd: Unig Berchennog / Person Cyfrifol
Dyddiad: 19/03/26

: